

Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/134856/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Callander, David ORCID: <https://orcid.org/0000-0003-0177-7789> 2020. Y Seintiau a Thraddodiad Llenyddol: Achos y Canu i Wenfrewy. *Studia Celtica* 54 (1), pp. 99-114. 10.16922/SC.54.7 file

Publishers page: <http://dx.doi.org/10.16922/SC.54.7>
<<http://dx.doi.org/10.16922/SC.54.7>>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies.

See

<http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Y Seintiau a Thraddodiad Llenyddol: Achos y Canu i Wenfrewy

Y mae'r erthygl hon yn astudiaeth ryngdestunol o'r cerddi caeth i'r santes Gwenfrewy o'r Oesoedd Canol diweddar sy'n eu cymharu â ffynonellau eraill am y santes, yn entwedig ei bucheddau o'r 12fed ganrif. Dadleuir nad yw traddodiadau Gwenfrewy yn unffurf a digyfnewid a bod rhaid gweld y cerddi Cymraeg fel cynnyrch adeg a lleoliad penodol yn ei chwlt amrywiol. Nodir er ei fod yn anodd profi cysylltiadau rhyngdestunol yn achos y canu caeth, yn rhannol oherwydd diffyg naratif estynedig, y mae ymchwilio i'r fath gysylltiadau yn werth chweil o hyd, yn entwedig gan ei fod yn amlygu enghreifftiau o lle gall beirdd fod yn newid traddodiad yn furiadol ac yn grefftus at ryw ddiben penodol.

This article is an intertextual study of the strict-metre poems to Saint Winefride from the late Middle Ages, which compares them with other sources for the saint, notably her twelfth-century vitae. It is argued that Winefride's traditions are not uniform and unchanging and that the Welsh poems must be seen as the creative product of a particular time and place in her varying cult. It is noted that, although it is difficult to prove intertextual connections in the case of the strict-metre poetry, partly because of a lack of extended narrative, investigating such connections is still worthwhile, especially as it highlights examples of where poets could be actively and artfully changing the tradition before them to a particular end.

Y mae'r rhan fwyaf o'r traddodiadau lu am Wenfrewy yn ei chyflwyno fel santes wryfol o'r 7fed ganrif a fu fyw yn ardal Tegeingl. Torrwyd ei phen gan Garadog ar ôl iddi geisio dianc rhagddo ond fe'i hatgyfodwyd gan Dduw trwy Feuno.

Tarddodd ffynnon lle disgynnodd ei phen ac yr oedd y ffynnon, sy'n aros yn gyrchfan i bererinion hyd heddiw, yn iacháu cleifion. Bu Gwenfrewy'n byw yn sanctaidd nes ei hail farwolaeth. Dyma, yn syml, stori Gwenfrewy, neu ran o'i stori, ond y mae hyn yn cuddio'r amrywiaeth fyrlymus a fu yn y traddodiadau amdani drwy gydol yr Oesoedd Canol a thu hwnt, ac nid yw'r traddodiadau i gyd yn dilyn hyn o naratif chwaith.

Y testunau cynharaf ar glawr sy'n disgrifio Gwenfrewy yw ei dwy fuchedd Ladin, sef buchedd ddienw o Gymru o'r 12fed ganrif a buchedd lawer hwy gan Robert o Amwythig a gyfansoddwyd tua 1137–1142.¹ Y mae'r fuchedd ddienw yn

¹ Cyhoeddir fy ngolygiadau o fucheddau Lladin Gwenfrewy fel rhan o brosiect *Vitae Sanctorum Cambriae: The Latin Lives of the Welsh Saints* a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Dyfynnir o'r golygiadau hyn isod. Cyhoeddir y golygiadau ar lein: <<http://www.seintiaucymru.ac.uk>>. Hoffwn ddiolch i Ann Parry Owen am ddarllen drafft o'r erthygl hon a chynnig adborth tra defnyddiol. Yr wyf yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau sydd ar ôl.

fer ond mae hefyd yn cynnwys rhestr hir o ddisgrifiadau o wyrthiau a gysylltid â ffynnon Gwenfrewy. Ymddengys fod y rhain wedi eu casglu dros gyfnod o amser. Llawer hwy yw buchedd Robert, sydd hefyd yn cynnwys stori trosglwyddiad gweddillion Gwenfrewy o Wytherin lle bu farw i Amwythig yn 1137–8, trosglwyddiad yr oedd Robert ei hun yn rhan ohono. Cyfieithwyd buchedd Robert i'r Gymraeg yn ddiweddarach yn yr Oesoedd Canol.² Y mae'r bucheddau Lladin yn amlwg yn perthyn i'w gilydd ac yn arddangos cyfatebiaethau geiriol sylweddol. Esboniad argyhoeddiadol Fiona Winward am hyn yw i'r ddwy fuchedd dynnu ar fuchedd Ladin Beuno a gynhwysai stori torri pen Gwenfrewy.³ Nid yw buchedd Ladin Beuno ar glawr bellach, ond ceir cyfieithiad Cymraeg Canol ohoni, sef *Buchedd Beuno*.⁴ Ffynnai traddodiadau am Wenfrewy yn Saesneg Canol hefyd, yn enwedig o'r 15fed ganrif ymlaen.⁵ Y mae'r erthygl hon yn edrych yn benodol ar y canu Cymraeg i Wenfrewy a'i ffynnon, sef cywydd enwog Tudur Aled i Wenfrewy a chywydd arall gan Ieuan Brydydd Hir, yn ogystal â dau gywydd dienw sy'n anodd eu dyddio.⁶ Canodd Siôn ap Hywel awdl iddi yn 1512 hefyd.⁷ Mor niferus ac mor amrywiol yw'r testunau am Wenfrewy fel y gall fod yn anodd ceisio astudio ac

² Golygir y cyfieithiad hwn (*Buchedd Gwenfrewy*) gan Jane Cartwright ar gyfer prosiect *Cwlt y Seintiau yng Nghymru* a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir y golygiad hwn ar lein: <<http://www.seintiaucymru.ac.uk/>>. Y mae hi hefyd yn paratoi astudiaeth lawn o'r testun, ei llawysgrifau a'i ffynonellau. Ceir y fuchedd Gymraeg mewn dwy lawysgrif annibynnol, sef LIGC Peniarth 27ii a LIGC Llansteffan 34. Cyfeirir yma at olygiad Jane Cartwright o'r testun wedi ei seilio ar lawysgrif Llansteffan 34 oni nodir fel arall.

³ F. Winward, 'The Lives of St Wenefred (BHL 8847–8851)', *Analecta Bollandiana*, 117 (1999), 89–132.

⁴ Golygir yn P. Sims-Williams, gol., *Buchedd Beuno* (Dublin, 2018). Dyfynnir o'r golygiad hwnnw yma, gan ddad-wneud y newid golygyddol o <d> i <ð>.

⁵ Am drosolwg o'r traddodiadau Saesneg gw. J. R. Gregory, 'A Welsh Saint in England: Translation, Orality, and National Identity in the Cult of St. Gwenfrewy, 1138–1512' (traethawd PhD anghyhoeddedig, University of Georgia, 2012), tt. 222–327.

⁶ T. Gwynn Jones, gol., *Gwaith Tudur Aled* (Caerdydd, 1926), 2 gyf., II, cerdd CXXXIX; M. Paul Bryant-Quinn, gol., *Gwaith Ieuan Brydydd Hir* (Aberystwyth, 2000), cerdd 9. Cyfeirir at y ddau gywydd dienw wrth eu llinellau cyntaf, sef 'Rhedodd o'r ddaear hoywdeg' (T. M. Charles-Edwards, *Two Mediaeval Welsh Poems* (Llandysul, 1971), cerdd 2 (dyfynnir yma); H. Lewis, T. Roberts, ac I. Williams, gol., *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, arg. diwygiedig (Caerdydd, 1937), cerdd XXXV) ac 'Y ferch addwyn ei hwyneb' (Barry J. Lewis, gol., *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines* (Dublin, 2015), cerdd 9). Gall fod y cywyddau dienw yn dyddio o ail hanner y 15fed ganrif neu ddechrau'r 16eg ganrif, gan fod y rhan fwyaf o'r canu Cymraeg i'r seintiau'n dyddio o'r cyfnod hwn.

⁷ A. Cynfael Lake, gol., *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan* (Aberystwyth, 1999), cerdd 18.

olrhain traddodiadau a nodweddion penodol o dan ymbarèl eang y term 'traddodiad'. Yr hyn a geisiaf ei wneud yma yw edrych ar Wenfrewy a'i stori fel y'u ceir yn y cerddi hyn a gweld sut mae hyn yn cymharu gyda'r traddodiadau ehangach am y santes. Awgrymaf fod y beirdd weithiau yn dewis a dethol ac yn addasu'r traddodiadau a oedd ar gael iddynt. Ceisiaf ddangos sut mae'r fath astudiaeth ryngdestunol yn gallu cael effaith ar y ffordd yr ydym yn darllen a golygu'r cerddi hyn.

Amrywiol Draddodiadau Gwenfrewy

Digon hawdd yw dod o hyd i enghreifftiau i brofi nad undod yw traddodiad Gwenfrewy. Cymerwn awdl Siôn ap Hywel yn enghraifft. Disgrifir y santes fel 'Nith ferch chwaer i Feuno' (18). Cytuna hyn â'r wybodaeth a gawn o *Achau'r Saint*, testun o Ogledd Cymru sydd i'w gael mewn llawysgrifau modern cynnar a dynnodd ar draddodiad *Bonedd y Saint*. Yno ceir ach Beuno fel a ganlyn, 'Beunno vab Pinsi (vab Gliws) vab Gwynlliw o Beryfferen verch Lowdden lveddoc i vam' ac wedyn ach Gwenfrewy, 'Gwenvrewy verch Dyvid o Wenlo verch Insi, vrenin Powys, i mam', gan wneud Beuno a mam Gwenfrewy (Gwenlo) yn frawd a chwaer, yn blant i (B)insi.⁸ Felly ceir tystiolaeth nad Siôn ap Hywel a ddyfeisiodd y cysylltiad teuluol hwn rhwng Beuno a Gwenfrewy, ond nid yw hyn yn meddwl bod y cysylltiad i'w gael yn y traddodiadau i gyd. Os edrychwn ar y testunau cynharaf sydd ar glawr, sef y ddwy fuchedd Ladin, y mae'r sefyllfa'n dra gwahanol. Dyma eu disgrifiadau o'r cyfarfod cyntaf rhwng Tyfid (tad Gwenfrewy) a Beuno:

Buchedd Robert o Amwythig (§ 1)

Ducente uero illum spiritu sancto, gressumque eius ad multorum utilitatem dirigente, peruenit ad predium cuiusdam magni et potentissimi uiri nomine Thevith. Qui filius unius summi atque excellentissimi senatoris, et a rege secundi, Eliuth nomine, nichil sue progeniei incongruum, aut quod tantum genus dedeceret, admittere dignabatur, set nobilitatem

⁸ P. C. Bartrum, gol., *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff, 1966), tt. 70 a 146; P. C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth, 1993), t. 316.

generis honestis moribus exequens, in omni elegantia conspicuus apparebat.

Ad hunc ergo cum uir uenerabilis Beunous uenisset, benigne satis ac reuerenter ab eo susceptus est. Qui diu non differens quod animo uoluebat euoluere, et aduentus sui causam manifestare, uiro secretius aduocato, 'Domine', inquit, 'ad te sum cęlesti subnixus instinctu destinatus. ... Oro itaque quatinus de possessione a progenitoribus tuis iure hereditario tibi diriuata partem Deo et michi concedas, ut ibi ecclesiam fabricem, in illa Deo seruiturus, et pro tua salute deinceps omni die postulaturus.'

Ille autem qui iam toto conceperat animo illius obtemperare uoluntati, quoniam eum uirum dignum laude et in reuerentia habendum iudicabat, huiusmodi illi uerbis respondit. 'Iustum quidem est de his quę a Deo collata nobis sunt illi partem tribuere, et pro suis ei beneficiis gratias pro modulo nostro acceptabiles rependere. ...

Yn wir, gyda'r Ysbryd Glan yn ei arwain ac yn cyfarwyddo ei hynt er lles llawer, daeth Beuno i ystād rhyw ddyn mawr a thra phwysig o'r enw Tyfid. Ac yntau'n fab i seneddwr gwych a thra ardderchog o'r enw Eiludd, yn ail i'r brenin, ni welai'n dda derbyn dim a fyddai'n annheilwng o'i ach neu a fyddai'n gwaradwyddo teulu mor wych, ond, gan barhau yn natur anrhydeddus ei deulu gydag arferion parchus, ymddangosai'n amlwg ym mhopeth cain.

Ac felly pan ddaethai'r gŵr hybarch Beuno ato, derbyniwyd Beuno ganddo yn garedig ddigon ac yn anrhydeddus. Heb oedi'n hir cyn datgelu'r hyn a oedd ar ei feddwl a'r rheswm dros ei ddyfodiad, wedi galw'r dyn i le mwy preifat, meddai, 'Arglwydd, fe'm hanfonwyd atat wedi fy nghynorthwyo gan symbyliad dwyfol. ... Ac felly gofynnaf iti roi cyfran o'r eiddo a gefaist gan dy hynafiaid yn ôl cyfraith etifeddol i Dduw ac i mi, fel y gallaf adeiladu eglwys yno, i wasanaethu Duw ynddi ac i ofyn am dy iachawdwriaeth bob dydd wedyn.'

Ac felly, ac yntau bellach wedi ystyried â'i holl feddwl ildio i'w ewyllys, canys barnai Feuno'n ŵr a haeddai foliant ac y dylid ei barchu'n anrhydeddus, ymatebodd Tyfid gyda'r

geiriau hyn: ‘Y mae’n ddiamau’n gyfiawn rhoi cyfran iddo o’r pethau hynny sydd wedi eu rhoi inni gan Dduw, ac i ddiolch iddo am ei roddion yn briodol yn ôl ein gallu. ...’⁹

Buchedd ddienw (§§ 3–4)

Et quod quidem grauius ferebat, ad obseruandum inposterum patrimonium uiro illa nubere renuebat. E contra uero gratulatio inerat sibi, suam prolem Dei se subdere dicioni. Cuius gratie causa, proposuit heros liberalibus artibus suam tradere satam.

Dumque in tali existebat proposito, beatus Bennonus pre superfluitate filiorum Selym mansionem suam priuatus in domo descendit ipsius. Quem heros bene literatum atque religiosum animaduertens, de sua eum consuluit nata, sibi eiusdem uotum enucleans.

A’r hyn yr oedd [Tyfid] yn dioddef yn waeth o’i herwydd oedd ei bod hi’n gwrthod priodi gŵr er mwyn cynnal yr etifeddiaeth i’r dyfodol. Ar y llaw arall, yr oedd yn wirioneddol llawen bod ei ferch yn ei hymrwymo ei hun i awdurdod Duw. Oherwydd y fendith hon, cynlluniodd y gŵr da roi ei blentyn i astudio’r celfyddydau breiniol.

A thra oedd gan Dyfid y fath fwriad, daeth Beuno fendigaidd, wedi colli ei gartref oherwydd gormodedd meibion Selyf, i dŷ Tyfid. Sylwodd y gŵr da’n amlwg fod Beuno’n ddysgedig a chrefyddol, a gofynnodd iddo am gyngor o ran ei ferch, gan esbonio’r hyn a ddymunai hithau o ddifrif.¹⁰

⁹ Darlleniad *Buchedd Gymraeg Gwenfrewy* (§§2–3) yw: *A chan dewyssaw o’r Yspryd Glan a cherdded ohonaw er lles i lawer, ef a ddoeth i lys gwrda cyfoethawc: Tybyt oedd y entw, a mab y bennadur gorau o’i wlad oedd. Ac ni oddefai gamfaint o’r byd arnaw nac ar y rieni: onid kynnal bonhedd y genedyl a wnai o ddefodau da, ac ymddangos yn rhagorus ymhob camp. Ac weddy dyfod y gwrda hwinn, Beuno, at y gwr a ddywetpwyd vchod, ef a dderbynniwyd yn arbenmedic ac yn anrhydeddus. Ac ni bu hir yny ddangosses y sant a oedd yn y veddwl. Galw y gwrda attaw a oruc a manegi iddaw achaws i ddyfodiad fal hynn: ‘Arglwydd,’ heb ef, ‘o nefawl rybydd y’m hanfonedd attad ti. ... Wrth hynny, mi a’th weddiaf di yny gyniattaych di o’th dreftadawl ddylyed gyfrann y Dduw ac y minhau y adailad eglwys ohonaf i yno y wassanaethu Duw ynddi ac y’w weddiaw beunydd, o hynny allann, dros dy iechyd.’ Sef a oruc yntay Dybyt, weddy meddyliaw ohonaw, wneuthyr y ewylllys, canys barnai y fod yn wr teilwg o glod ac anrhydedd. Ac yna ateb a wnaeth o’r geiriau hynn: ‘Iawn yw y mi roddi rhann y Dduw o’r hwinn a roddes yntau y mi, a diolch iddaw y roddion o’r modd y gallem. ...*

¹⁰ Dyma ddisgrifiad *Buchedd Beuno* o’r un digwyddiad (§ 11): *Odyo y gedewis Beuno y lle hwnnw ac y kerddawd hyt yn glan Dyfyrdwy avon y geissaw lle y wediaw Duw. Ac ny’s cawas yny doeth hyt at Temic vab Eliud. A’r Temic hwnnw a rodes y Veuno yn dragywydawl ac yn diosgrynn tref. Eto, ni cheir awgrym mai ewythr Gwenfrewy yw Beuno.*

Nid yw'n rhesymegol tybio bod awduron y bucheddau hyn am gyflwyno Beuno fel ewythr Gwenfrewy. Nid ymddengys fod Tyfid a Beuno yn adnabod ei gilydd cyn eu cyfarfod yma. Nid yw'r un o'r testunau'n datgan bod cysylltiadau teuluol rhyngddynt. Ond o ystyried diddordeb penodol y Cymry ym mherthnasau teuluol eu seintiau a'r lliaws o gysylltiadau gwaed a ddyfeisiwyd rhyngddynt mewn canrifoedd diweddarach, gellir yn hawdd esbonio datganiad Siôn ap Hywel yn ei gyd-destun pan oedd testunau o'r un ardal ac o'r un cyfnod yn dweud yr un peth.¹¹ Ymgymryd ag un traddodiad am Wenfrewy y mae Siôn ap Hywel fan hyn, yn hytrach nag adlewyrchu rhyw ffaith ddigyfnewid a gedwid ym mhob un o'r testunau amdani. Y mae hyn oll yn amlwg ddigon ond y mae'n pwysleisio bod modd gweld portread y cerddi o'r santes fel cynnyrch amser ac ardal penodol. Ac eto'n bwysicach na hynny, y mae'r portread yn ddewis, yn ddetholiad, yn addasiad o'r deunydd oedd ar gael i'r bardd. Cynnig y cerddi hyn gyfle i astudio fel yr aeth y beirdd ati i ddathlu ond hefyd lunio traddodiadau amrywiol Gwenfrewy. Y maent felly yn astudiaeth achos dda am y rhyngdestunoldeb cynhyrchiol sy'n nodweddu llenyddiaeth ganoloesol.

Y Canu i Wenfrewy a'i Bucheddau

Y mae'r diffyg gwaith manwl wrth gymharu'r testunau rhyddiaith â'r cerddi caeth hyd yn hyn o bosibl yn deillio'n rhannol o anhawster profi cysylltiadau rhyngdestunol. Yng nghywydd Tudur Aled i Wenfrewy a'i buchedd Ladin ddienw, er enghraifft, ceir rhestr hir o wyrthiau. Yn y ddau achos, y mae'r rhestr yn hwy na'r disgrifiad o fuchedd Gwenfrewy ei hun. Y prif wahaniaeth yw'r ffocws ar wyrthiau cosbi ym muchedd ddienw Gwenfrewy, fel mewn nifer helaeth o'r bucheddau o Gymru, ac ar wyrthiau iacháu yng nghywydd Tudur Aled, fel yng ngwaith ei

¹¹ Gw. y dystiolaeth achyddol uchod.

gyfoeswyr barddol.¹² Ceir cyfatebiaethau, yn sicr, megis yn y gwyrthiau atgyfodi'r meirw, y wyrth olaf yng nghywydd Tudur Aled: 'Ef ai'r marw'n fyw er morwyn' (90) neu yn ôl diwygiad T. Gwynn Jones: '... dwyn / Fo wr marw'n fyw er morwyn' (89–90). Yn y rhestr o wyrthiau ar ddiwedd buchedd ddiennw Gwenfrewy, disgrifir merch fach farw sy'n cael ei gadael yn eglwys Gwenfrewy i'w chladdu y bore wedyn, ond erbyn y bore y mae'r ferch yn fyw ac yn iach. Pwysleisia'r fuchedd ddiennw gredadwyedd y wyrth: 'Quid mirum si exanimes ad uitam prece sua reuocat, que defuncta denuo reuixerat?' 'A yw'n rhyfedd os yw hi'n galw'r meirw yn ôl i'r bywyd gyda'i gweddi, a hithau wedi byw eto ar ôl bod wedi marw?' (§ 46). Y mae hyn yn gyfatebiaeth ddiddorol ond oherwydd diffyg manylder disgrifiad Tudur ni ellir ei defnyddio i awgrymu ei fod yn gyfarwydd â'r fuchedd ddiennw. Fel y nodwyd gan Paul Bryant-Quinn, y mae gwyrthiau o'r fath i'w cysylltu yn y pen draw gyda Christ, a wna wyrthiau drwy ei seintiau sy'n adlewyrchu y gwyrthiau a wnaeth ef pan oedd ar y ddaear, gan gynnwys, wrth gwrs, atgyfodi'r meirw.¹³ Felly y mae'r gwyrthiau at ei gilydd yn llawer rhy gyffredin ac yn cael eu disgrifio mewn ffordd lawer rhy gyffredinol i fod o ddefnydd at ddibenion rhyngdestunol, boed hynny rhwng y cerddi eu hunain neu rhwng y cerddi a mathau eraill o destunau. Byddai'r sefyllfa yn hollol wahanol petai Tudur wedi adrodd naratif manwl yn disgrifio fel yr atgyfodwyd y ferch yn ôl disgrifiad y fuchedd, ac felly y mae hyd a manylder naratif yn ystyriaeth bwysig yma.

Yr unig gerdd Gymraeg i Wenfrewy cyn y flwyddyn 1700 lle ceir cysylltiad sicr gyda ffynhonnell ysgrifenedig benodol yw carol Gwilym Pue i Wenfrewy o'r 17eg ganrif. Gellid yn hawdd disgrifio hon fel buchedd fydryddol. Dyma'r unig gerdd Gymraeg sy'n cynnig naratif estynedig o fuchedd Gwenfrewy, ac y mae'r

¹² Ar y defnydd o restrï o wyrthiau yn y farddoniaeth, gw. Lewis, *Medieval Welsh Poems to Saints and Shrines*, t. 23; Bryant-Quinn, *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, t. 146.

¹³ Bryant-Quinn, *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, t. 146; Math xi.4–5; Luc vii.22.

naratif yn dilyn buchedd Robert o Amwythig yn agos gyda nifer o gyfatebiaethau union, fel a ganlyn:

Pan welodd Eleri y santes Gwenfrewi,
i'r sant 'roedd yn gweddu ei chroesawu;
'roedd Eleri yno gwedi cael ei rybuddio
ei bod hi yn dwad ato i grefyddu.
Eleri dan Theoyn abades Gwytheryn
mewn parch rhoes y forwyn Gwenfrewi; (153–8)¹⁴

Dyma stori Gwenfrewy fel y'i ceir gan Robert o Amwythig yn unig (§§ 16–17), a pharheir i ddilyn ei fuchedd ar ôl hyn. Profir felly fod Gwilym Pue'n gyfarwydd â rhyw ffurf ar fuchedd Robert. Ac eto ni cheir fyth naratif mor estynedig a hawdd ag eiddo carol Gwilym yng nghanu caeth yr Oesoedd Canol, ac y mae hyn yn her i astudiaethau rhyngdestunol. Gall y cywyddwyr gyfeirio at rywbeth sy'n digwydd mewn buchedd hefyd, ond nid yw hyn fel arfer yn ddigon ar ei ben ei hun i greu cysylltiad rhagor na nodi bod hyn yn digwydd mewn rhai traddodiadau am Wenfrewy. Cyfansoddodd Gwilym gywydd byrrach i Wenfrewy¹⁵ ac er bod rhai cyfatebiaethau awgrymiadol gyda buchedd Robert, byddai'n llawer anos profi bod y bardd yn gyfarwydd â'r fuchedd ar sail y cywydd yn unig, am nad yw'n cynnwys y manylder, a'r manylder naratif yn enwedig, a geir yn y carol.

Nid yw naratif y cywyddau canoloesol fel arfer yn cynnig digon o fanylion i brofi cysylltiad â ffynhonnell benodol. Gellir enghreifftio hyn o'r disgrifiad o farwolaeth Gwenfrewy yng nghywydd Ieuan Brydydd Hir:

¹⁴ M. Ap Huw, 'A Critical Examination of Welsh Poetry Relating to the Native Saints of North Wales (c. 1350–1670)', (traethawd DPhil anghyhoeddedig, Rhydychen, 2001), cerdd XXXV. Argraffwyd y testun yn Geraint Bowen, 'Carol ar y Mesur Tri Thrawiad gan Gwilym Pue o'r Penrhyn', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 16 (1969-70), tt. 97–103.

¹⁵ Ap Huw, 'Critical Examination', cerdd XXXIV.

Caradog 'Lawog a'i gledd,
Noeth gymell, a wnaeth gamwedd
Pan dorres (panad eurid?)
Pen y lloer, gwnaeth poen a llid. (13–16)

Gellir cysylltu hyn â phob un o'r testunau sy'n disgrifio marwolaeth Gwenfrewy ac felly y mae hyn yn hollol wahanol i'r carol naratif, sy'n cyfateb yn benodol i un testun arall. Dewisodd y cywyddwyr beidio â chynhyrchu gwaith fel carol Gwilym Pue, ac nid yw'r dewis bwriadol yma yn ddiffyg neu'n wendid yn eu crefft, ond y mae'n gallu ei wneud yn anos asesu pa ffynonellau a ddefnyddiwyd gan y beirdd. Felly y mae rhesymau penodol dros y diffyg cymhariaeth rhwng y canu caeth a'r bucheddau rhyddiaith. Gall fod yn dra anodd profi cysylltiadau rhyngddynt. Ond nid yw hyn yn golygu nad yw'r gymhariaeth yn werth chweil.

Gellid gwneud llawer mwy i astudio'r cywyddau i Wenfrewy o bersbectif rhyngdestunol nag a wnaethpwyd hyd yn hyn. Os cymherir testunau eraill o gwbl, y mae'r ffocws wedi tueddu i fod ar *Fuchedd Beuno* ar draul bucheddau Gwenfrewy ei hun, er bod ei bucheddau wedi eu darllen yng Nghymru a bod un ohonynt wedi ei chyfieithu i Gymraeg Canol. Y mae sawl rheswm am hyn, gan gynnwys argaeledd golygiadau a thrafodaethau trylwyr o *Fuchedd Beuno* a'r ffaith mai *Buchedd Beuno*, fel cyfieithiad o'r fuchedd goll a ysbrydolodd ddwy fuchedd Ladin Gwenfrewy, yw'r tyst mwyaf union o bosibl i'r portread cynharaf o Wenfrewy y gwyddys amdano. Noda Jane Cartwright hefyd fod tuedd digyfiawnhad i beidio â rhoi'r un statws i fucheddau santesau ag i fucheddau seintiau gwrywaidd o ran eu gwerth fel tystiolaeth hanesyddol.¹⁶ Y mae'r ffocws ar *Fuchedd Beuno* wedi bod ychydig yn gamarweiniol wrth astudio'r cywyddau a'u cysylltiadau rhyngdestunol. Er i fucheddau Gwenfrewy gael eu hesgeuluso, weithiau y maent yn llawer tebycach i'r

¹⁶ J. Cartwright, *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales* (Cardiff, 2008), t. 69.

cywyddau na *Buchedd Beuno*. Egyr cywydd Ieuan Brydydd Hir gyda'r cwpled canlynol:

Y fun wyrf o'r fan oror
A droes y maen dros y môr.

Dyma sut y mae nodiadau'r golygiad yn ei esbonio:

Yn 'Buchedd Beuno', yr ymddengys ei bod yn gyfieithiad i'r Gymraeg o *Vita Lad.* goll, cofnodir chwedl am Feuno yn mynnu bod Gwenfrewy yn gwneud clog newydd iddo bob blwyddyn. Yn ôl y chwedl, danfonwyd y glog at Feuno ar garreg a arnofiai ar draws yr afon ... Y mae enwi *môr* yma efallai'n awgrymu'r daith o Dreffynnon i Glynog, ond gan mai afon yn unig a enwir yn y ffynonellau hagiograffaid, gall mai yn drosiadol yr arferir *môr* ...¹⁷

Mewn gwirionedd, ni cheir sôn am y wyrth hon o gwbl yn *Buchedd Beuno*, sy'n cyfyngu ei thriniaeth o Wenfrewy i hanes ei merthyru a'i hatgyfodi a disgrifiad byr o'i ffynnon. Ond y mae'r wyrth yn cael ei disgrifio'n fanwl yn nwy fuchedd Ladin Gwenfrewy (Buchedd Ddienw §§ 15–17; Buchedd Robert §§ 10–11) a buchedd Gymraeg Gwenfrewy (§ 20). Ceir y fersiwn ohoni sydd fwyaf tebyg i gerdd Ieuan Brydydd Hir yn y Fuchedd Ddienw. Dyma'r unig fersiwn sy'n cyfeirio'n benodol at faen fel cyfrwng cario'r clog i Feuno. Os tynnodd Ieuan Brydydd Hir ar ffynhonnell ysgrifenedig, y mae'n fwy tebygol mai rhyw ffurf neu addasiad ar Fuchedd Ddienw Gwenfrewy a ddarllenodd yn hytrach na *Buchedd Beuno*.

Nid rhoi gwell syniad inni o ffynonellau posibl y bardd yw unig fantais cymharu bucheddau Gwenfrewy. Y maent hefyd yn gyfle i wella deongliadau o elfennau o'r cerddi, gan gynnwys y cwpled dan sylw uchod. Noda'r golygydd na cheir cyfeiriad at y môr yn y ffynonellau hagiograffaid ac felly y gall fod y môr yn

¹⁷ Bryant-Quinn, *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, tt. 144–5.

drosiadol yma. Ond eto, o edrych ar fucheddau Gwenfrewy, sylwir nad dyfais newydd gan y bardd yw hyn:

Buchedd Robert o Amwythig (§ 10)

Totaque illa die cum sequenti nocte illud uirginis munus per marinos fluctus deductum, mane ad litus illud depulsum est, super quod uir sanctus habitacula sua composuerat. Cum autem beatus Beunous, mane ab ecclesia digressus, super oram maris staret ...

Ac wedi i rodd y forwyn honno gael ei chludo ar hyd tonnau'r môr trwy'r dydd hwnnw a'r noson ganlynol, yn y bore fe'i gyrrwyd i'r lan lle yr oedd y gŵr sanctaidd wedi adeiladu ei gartref. Felly pan oedd Beuno fendigaidd, ac yntau wedi gadael yr eglwys yn gynnar yn y bore, yn sefyll uwchben lan y môr ...¹⁸

Buchedd ddienw (§ 16)

In annis quoque singularibus in Iohannis Baptiste uigilia, casulam hoc modo Bennono transmittibat: super saxum illam aptabat, saxum uero ipsam interius et exterius siccam cum fontis fluctibus labans usque in mare deferrebat, et sic per mare ad portum Sachlen usque ad Bennonum.

Hefyd bob blwyddyn ar noswyl Ioan Bedyddiwr anfonai hi'r casul at Feuno yn y modd hwn: gosodai'r casul uwchben y maen, a chan grynu yn ffrydiau'r ffynnon y cludai'r maen y casul, yn sych tu mewn a thu allan, yr holl ffordd i'r môr, ac felly trwy'r môr at Feuno i borthladd Sachlen.

Yn ogystal â'r sôn diamwys am y môr yn y bucheddau, y mae hefyd yn glir mai at Feuno yn ardal Clynnog yr anfonwyd y casul, ac felly y mae Ieuan Brydydd Hir yn cyfeirio at wyrth hysbys wrth agor ei gywydd, yn hytrach na chreu trosiad. Nid eithriad yw'r enghraifft hon. Awgrymwyd y gall fod Tudur Aled yn gyfarwydd â *Buchedd Beuno* oherwydd cyfeiriad posibl at 'chwys' Gwenfrewy, ond digwydd hyn

¹⁸ Darlleniad buchedd Gymraeg Gwenfrewy (§ 20) yw: *A pheth rhyfedd ni welid y dwfyr ynn gwlychu dim ar y lliain vchaf, namyn rhedec yn sych ar hyd y phrwd y'r afon fawr ac y'r mor. Ac a ddoeth gan donnau erbyn y pylgain hyd y traeth lle yr oedd y sant yn kyfanheddu. A phan oedd Beuno y bore ar lann y mor, yn dyfod o'r eglwys y rodio, ...*

ym muchedd Gwenfrewy gan Robert o Amwythig hefyd ac yn ei chyfieithiad Cymraeg Canol.¹⁹

Y mae nifer o gamddeongliadau o gerddi (neu hyd yn oed o feirdd) wedi deillio o ddiffyg astudiaethau cymharol manwl. Ceir enghraifft amlwg o hyn yng nghywydd Tudur Aled wrth iddo ddisgrifio'r graith ar wddf Gwenfrewy:

nod o amgylch nid ymgudd,
nod yr arf yn edau rudd, (23–4)

Astudiwyd y ddelwedd hon ar ei phen ei hun a'i dehongli'n enghraifft o greadigrwydd barddonol Tudur Aled. Nododd Syr John Morris Jones am Dudur:

Y mae ganddo ... ddychymyg byw a meddwl cryf. Cymerer, er enghraifft, ei adroddiad o'r hen chwedl am Garadog yn torri pen Gwenfrewi a chleddyf: pan roes Beuno'r pen yn ol oni bu hi'n holliach, *gwelai dychymyg y bardd* ar ei gwddf 'nod yr arf yn edau rudd'²⁰

Ac eto nid oedd hyn wedi dod o ddychymyg Tudur o gwbl, ac y mae'r gymhariaeth â bucheddau Gwenfrewy yn ein galluogi i weld hyn. Eisoes yn hanner cyntaf y 12fed ganrif, yr oedd Robert o Amwythig wedi disgrifio'r graith fel 'albedo quedam tenuissima in modum fili' 'gwynder tenau iawn ar lun edau' (§5) (yn y cyfieithiad Cymraeg Canol, y darlleniad yw 'a chraith burwen ar lun edau'.) Felly y mae'r traddodiad o gymharu'r graith gydag edau yn llawer hŷn na Thudur. Ym muchedd Robert, y mae'r graith yn wen ond mewn rhai testunau Saesneg o'r 15fed ganrif y mae'n goch, ac felly, os nad cyd-ddigwyddiad yw hyn, y mae Tudur yn rhan o'r traddodiad diweddarach hwn sy'n nodi bod y graith yn edau goch neu'n edau

¹⁹ Charles-Edwards, *Two Mediaeval Welsh Poems*, t. [6]; Buchedd Robert (§ 5); Buchedd Gymraeg Gwenfrewy (§ 13).

²⁰ J. Morris Jones, 'Tudur Aled', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1908-9, 21–52 (t. 49). Myfi piau'r pwyslais.

rudd.²¹ Yn amlwg, felly, esgorodd y tuedd i ddarllen y cerddi hyn ar wahân i draddodiadau hagiograffaid eraill ar sawl camddarlleniad.

Dyfeisgarwch y Bardd a Thraddodiadau'r Seintiau

Oherwydd diffyg cymhariaeth fanwl gyda thestunau eraill, disgrifir y cerddi hyn weithiau fel petaent yn dystion i gwlt digyfnewid y sant, yn hytrach na gweithiau llenyddol a allai newid y traddodiadau a oedd ar gael iddynt am resymau penodol. Ceisiaf symud i ffwrdd o'r tuedd hwn gan ganolbwyntio'n arbennig ar gywydd Tudur Aled i Wenfrewy a'i berthynas gyda'r gwahanol draddodiadau amdani. A allwn gael syniad o'r traddodiadau a oedd ar gael i Dudur ac felly astudio'r ffordd yr aeth ati i'w haddasu ar fydr? Fel y nodais uchod, nid oes llawer o waith cymharol wedi ei wneud yn edrych ar y cywydd hwn a bucheddau Lladin Gwenfrewy, gyda thuedd i ganolbwyntio ar *Buchedd Beuno* os ceir cymhariaeth o gwbl. O ran strwythur y gerdd gyfan, cyfetyb yn llawer gwell i fuchedd ddiennw Gwenfrewy nag i fuchedd Robert. Y mae'r rhan fwyaf o fuchedd Robert yn canolbwyntio ar fywyd Gwenfrewy ar ôl iddi gael ei hatgyfodi, gan ddisgrifio ei symudiad o gwmpas gogledd-ddwyrain Cymru cyn diweddu ei hoes yng Ngwytherin. Wedyn y mae Robert yn sôn am sut yr oedd ef ac eraill wedi mynd i Wytherin yn ail flwyddyn teyrnasiad y Brenin Steffan i ddwyn creiriau Gwenfrewy a'u cymryd i Amwythig. Ni sonnir am hyn yng nghywydd Tudur Aled, er y byddai wedi bod yn hysbys iddo. Credaf fod y cywydd yn bwriadol osgoi trafod bywyd diweddarach Gwenfrewy a symudiad y creiriau, nid oherwydd rhyw ddiacter bod ei chreiriau wedi eu symud i Loegr ond am fod trosglwyddiad y creiriau yn amherthnasol i gwlt Gwenfrewy yn Nhreffynnon. Y mae'r cerddi eraill i Wenfrewy o'r cyfnod i gyd yn canolbwyntio ar Dreffynnon ac ynddynt hwy oll gwelir penderfyniad bwriadol i beidio â sôn am drosglwyddiad y creiriau na disgrifio'n fanwl bywyd diweddarach Gwenfrewy.

²¹ Gw. Gregory, 'Welsh Saint', tt. 278, 303, 307, 313 a 321.

Y mae'r fuchedd ddiennw yn llawer byrrach na buchedd Robert ac yn canolbwyntio ar y prif ddigwyddiadau y mae Tudur Aled yn eu trafod, er bod rhagor o sôn am dad Gwenfrewy a Beuno ar ddechrau'r fuchedd ddiennw (§§ 2–7). Ar ôl y fuchedd fer, y mae'r testun diennw yn cynnwys rhestr hirfaith o wyrthiau a oedd wedi digwydd wrth Ffynnon Gwenfrewy dros gyfnod o amser (penodau 21–48), ac y mae hyn yn cyfateb i ddisgrifiad Tudur o ferthyru ac atgyfodi Gwenfrewy cyn y rhestr hir o wyrthiau (llynellau 59–90).²² Fel dwy fuchedd Gwenfrewy a buchedd Beuno, y mae cywydd Tudur Aled hefyd yn cynnwys disgrifiadau o'r ffynnon ond y mae'r manylion yn debycach i'r rhai ym mucheddau Gwenfrewy na buchedd Beuno, fel yr amlinellaf yn fuan. Felly ar y cyfan y mae strwythur y cywydd yn weddol debyg i strwythur buchedd ddiennw Gwenfrewy ond eto y mae'n anodd profi nad cyd-ddigwyddiad yw hyn. Fel y nodir uchod, yr oedd rhestri o wyrthiau, er enghraifft, yn draddodiad ymysg y cywyddwyr ac felly nid yw hyn yn ffurf y mae Tudur wedi ei chodi'n uniongyrchol o ryw fuchedd ysgrifenedig.

Y mae'n wir fod rhai cyfeiriadau yn y cywydd ac yn y bucheddau yn edrych yn debyg iawn i'w gilydd. Ceir enghraifft o hyn mewn cwpled sy'n disgrifio marwolaeth Caradog, llofruddiwr Gwenfrewy:

Lladdodd Wen; lle 'dd oedd, unawr,

Llyn tawdd a'i llyncawdd i'r llawr; (11–12)

Cymharer y disgrifiadau o hyn ym mucheddau Gwenfrewy:

Buchedd Robert (§ 4)

... corpus defuncti liquefactum disparuit, multis asseuerantibus tellure dehiscente absortum fuisse, et cum spiritu suo in baratro demersum.

²² Ceir disgrifiadau o nifer o wyrthiau ar safle Treffynnon ar ôl marwolaeth Gwenfrewy ym muchedd Robert hefyd (§§ 23–8) a'i chyfieithiad Cymraeg Canol (§§ 34–9).

... diflannodd corff y dyn marw wedi ei doddi, gyda llawer o bobl yn datgan ei fod wedi ei lyncu gan y ddaear gegrwith a suddo gyda'i ysbryd ym mhydew tywyllwch.²³

Buchedd ddienw (§ 13)

ille liquefactus est, ut ab igne cera.

cafodd ei doddi, megis cŵyr gan dân.²⁴

O'r gwahanol destunau, Buchedd Robert, Buchedd Gwenfrewy fel y'i ceir yn Llansteffan 34, a fersiwn diweddarach o Fuchedd Beuno sydd agosaf at gywydd Tudur am eu bod yn cyfuno'r toddi a'r lyncu (er nad ydynt yn cyfateb yn hollol i gwpled Tudur).²⁵ Y mae hyn yn awgrymu agosrwydd, o bosibl, at grŵp o destunau ond nid yw'n profi cysylltiad ag unrhyw destun penodol.

Beth felly am y disgrifiadau o'r ffynnon? Sonnir mewn cwpled arall am y cerrig yn ffynnon Gwenfrewy y credid bod eu smotiau coch yn olion ei gwaed:

main gwyarog mewn gweryd,
mwsog a bawm ym mysg y byd (41–2)

Yn nwy fuchedd Ladin Gwenfrewy disgrifir y meini, y mwsog a'u harogl yn yr un drefn:

Buchedd Robert (§ 5)

Et quoniam de corpore in descensu deuexi montis iacente multus fuerat effusus sanguis, lapides aspergine ipsius infecti, tam in fontis scaturigine quam in riuo illius, seu in amborum margine, passim iacebant. Et quod dictu uel auditu mirabile est, lapides illi

²³ Y darlleniad yn *Buchedd Gwenfrewy* yw *myned y korff yn llyn tawd ai lyngkv or ddayar ef* yn Peniarth 27ii ac *y llynckawdd y ddayar ef* yn Llansteffan 34.

²⁴ Y darlleniad yn llawysgrifau cynharaf *Buchedd Beuno* yw 'todes y brenhin yn llyn tawd' (§ 12). Mewn fersiwn diweddarach o *Buchedd Beuno* a gedwir yn Llansteffan 117 a Llyfrgell Beinecke, Osborn fb229 (o bosibl yn gopi o destun Llansteffan 117) ceir y darlleniad *y llynkodh y dhaiar y brenhin*, a gall fod dylanwad *Buchedd Gwenfrewy* i'w weld yn y darlleniad hwnnw. Gall fod buchedd Ladin goll Beuno wedi cynnwys y ddwy elfen hefyd.

²⁵ Llyncir Caradog gan y ddaear heb awgrym o'i doddi yn 'Y ferch addwyn ei hwyneb': 'Y ddaear a ymagorai / Yn barod, am ei fod ar fai, / I lyncu'r gŵr, cyflwr caeth' (15–7). Nid yw cerddi Cymraeg eraill y cyfnod yn disgrifio marwolaeth Caradog.

conspersi sanguine adhuc pristinam conspersionem retinent, ut patet usque hodie scire uolentibus. Nam sunt quasi congelato cruore perfusi, nec situ temporis, nec assidua preterfluentis aquę eluuione deterisi. Mussicula uero quę eisdem lapidibus adheret, quasi thus redolet.²⁶

Ac oherwydd bod llawer o waed wedi ei ollwng o'r corff yn gorwedd ar lethr y bryn llechweddog, yr oedd cerrig wedi eu hystaenio gan ysgeintiad y gwaed yn gorwedd yma a thraw ym mwrlwm y ffynnon a'i ffrwd ac ar ochr y ddwy. A'r hyn sy'n rhyfeddol ei ddweud neu glywed: y mae'r cerrig a ysgeintiwyd â gwaed yn cadw eu hysgeintiad blaenorol o hyd, sy'n weladwy hyd heddiw i'r rhai sydd am wybod. Canys y maent, fel petai, yn llawn o waed ceuledig ac heb eu glanhau gan draul amser na chan lif cyson y dŵr yn llifo heibio. Yn wir y mae'r mwsog sy'n glynu wrth y cerrig hynny yn arogl fel thus.

Buchedd ddienw (§ 14)

Cuius lapides usque in hodiernum diem ut pote in die prima sanguinolenti uidentur. Mussa etiam ut thus odorat et diuersis languoribus medetur.

Hyd heddiw ymddengys cerrig y ffynnon honno'n waedlyd fel ar y diwrnod cyntaf. Y mae'r mwsog hefyd yn arogl fel thus ac yn iacháu gwahanol glwyfau.

Y mae Thomas Charles-Edwards wedi dadlau bod y gair 'gweryd' yn bwysig yng nghywydd Tudur Aled, gyda'r bardd yn chwarae ar ei wahanol ystyron (pridd, mwsog, ac yn y blaen).²⁷ Y mae cyfuno'r cerrig, y mwsog, a'r peraroglau yn y drefn hon yn gyfatebiaeth drawiadol er nad oes modd ei gysylltu â buchedd benodol. Serch hynny, y mae'n bwysig nodi bod hyn yn enghraifft arall o gytuno rhwng bucheddau Gwenfrewy a chywydd Tudur yn erbyn *Buchedd Beuno*, nad yw'n cynnwys cyfeiriad at y cerrig, y mwsog a'r peraroglau o gwbl fel y saif, er bod hwnnw o bosibl wedi bodoli yn y fuchedd Ladin goll a fu'n sail iddi.

²⁶ Darlleniad buchedd Gymraeg Gwenfrewy (§ 14) yw: *Ac y mae i gwaed hi yn y phynnon kynn ired mal y gwyl pawb a'e mynno, a'r main gwedy rhewi y gwaed arnunt heb fyned byth er dwfr o'r byd odd'arnunt, a hefyd y myssogyl y sydd ar y kerric yn arrogylfawr megis ystor.*

²⁷ Charles-Edwards, *Two Mediaeval Welsh Poems*, t. [6].

Mewn nifer o achosion eraill gallwn fod yn hyderus nad o'r bucheddau Lladin y cafodd Tudur ddeunydd ei gerdd. Y mae'r sôn am yr holl ymwelwyr, gan gynnwys o bosibl Edward IV, o linell 95 ymlaen yn amlwg yn newydd ac yn ymateb i ddigwyddiadau diweddarach, fel y sôn am Domas Bennant, abad cyfoes Dinas Basing, a'i waith ar y ffynnon (107–112). Ond hefyd ceir cymariaethau rhwng y ffynnon ac afonydd enwog eraill fel yr Iorrdonen (32–7) nad ydynt yn y bucheddau. Nid yw hynny'n golygu bod y cymariaethau hyn yn ddiraddodiad. Maent i'w gweld mewn disgrifiadau trawiadol o debyg mewn rhai cerddi Cymraeg eraill i Wenfrewy.²⁸

Felly o ran profi cysylltiad rhwng y bucheddau Lladin a chywydd Tudur, y broblem yw bod y cywydd un ai'n rhy gyffredin yn ei ddisgrifiadau neu, os yw'n fwy penodol, nid yw'n cyfateb yn union i'r bucheddau Lladin. Os oedd Tudur yn gyfarwydd â'r bucheddau Lladin, penderfynodd beidio â phwyso arnynt yn ormodol. Gellid dweud hyn am bob cywyddwr a ganodd i Wenfrewy cyn Gwilym Pue. Os defnyddiodd Tudur y fuchedd ddiennw gyda'i rhestr gyfoethog o wyrthiau, nid oedd ei wybodaeth am gwlt Gwenfrewy wedi ei chyfyngu i'r fuchedd honno, ac ni ddisgwylid hynny chwaith. Yn ddiamau, cylchredai traddodiadau llafar o gwmpas Tegeingl yn oes Tudur Aled yn ogystal â thestunau ysgrifenedig nad ydynt ar glawr heddiw. Serch hynny, nid yw'r ansicrwydd sylfaenol hwn o ran y ffynonellau yn perthyn i bob cywydd i'r seintiau. Gwahanol iawn, er enghraifft, yw cywydd Syr Dafydd Trefor i Ddeiniol a'r berthynas amlwg rhwng y cywydd hwnnw a'r llithoedd Lladin am Ddeiniol.²⁹ Er hyn, yn y rhan fwyaf o achosion y mae'n anodd profi bod y cywyddwyr yn gyfarwydd â bucheddau ysgrifenedig penodol, ac

²⁸ Cymherir ffynnon Gwenfrewy i Afon Iorrdonen yn awdl Siôn ap Hywel i Wenfrewy (ll. 55) a 'Rhedodd o'r ddaear hoywdeg' (ll. 14). Gall rhagor o astudiaethau o'r cysylltiadau rhyngdestunol hyn rhwng y cerddi i Wenfrewy (a rhwng cerddi Cymraeg yr oes yn gyffredinol) fod yn dra chynhyrchiol.

²⁹ Cyflwynodd Barry Lewis ddau bapur ar gymharu bucheddau Lladin a'r farddoniaeth Gymraeg yn ddiweddar: 'The Latin Hagiography of Medieval Wales: How Much Have We Lost?' (International Medieval Congress, Leeds, 1 Gorffennaf 2019); 'From *Vitae Sanctorum* to *Cywyddau'r Saint*' (Vitae Sanctorum Cambriae Conference, Caergrawnt, 27 Medi 2019). Cyhoeddaf erthygl ar lithoedd a chywydd Deiniol yn benodol yn fuan.

fel y nodais uchod y mae ffurf a naratif yn bwysig yn y cyswllt hwn. Er gwaethaf yr ansicrwydd, erys y gymhariaeth yn werth chweil. Er nad oes modd profi cysylltiad rhwng y bucheddau Lladin a chywydd Tudur a'r cywyddau eraill, y mae'r bucheddau yn cynnig tystiolaeth helaeth o agweddau ar draddodiadau Gwenfrewy ac y mae'r rhain o gymorth mawr inni wrth ddehongli a golygu'r gerdd ac yn dangos sut fath o draddodiadau y gallai'r beirdd fod yn ymateb iddynt.

Credaf y gallwn weld enghraifft o fardd yn ymwneud yn greadigol â thraddodiad yng nghywydd Tudur Aled. Y mae'r gerdd yn ddiddorol am ei helfennau naratif. Teitl y gerdd yn llawysgrif Gwyneddon 3 (a fabwysiedir gan Thomas Charles-Edwards yn ei olygiad) yw 'Stori Gwenfrewy a'i Ffynnon', ac y mae hyn yn tynnu ein sylw at elfennau storiol y cywydd.³⁰ Ond nid yw'r elfennau naratif yn arbennig o estynedig, er eu bod yn gryf yng nghyd-destun gwaith Tudur Aled a'i gyfoeswyr.³¹ Ac mewn gwirionedd y mae'n peri syndod mai'r testun hwn sy'n cael ei alw'n stori weithiau, yn hytrach na chywyddau eraill i'r seintiau sy'n llawer cryfach a mwy estynedig eu naratif. Gall y gair Cymraeg Canol *ystoria* gyfeirio at destunau na fyddem yn eu hystyried yn straeon, yn enwedig (ac o bosibl yn ddadlennol) gyfieithiadau, ond ni welais ddadl debyg am y gair 'stori'.³² Ac eto o ystyried tebygrwydd 'ystoria' a 'stori' fel geiriau, nid annhebygol fyddai i ystyr y naill ddylanwadu ar ystyr y llall.

Yr oedd T. Gwynn Jones yn feirniadol ddigon o naratif y cywydd. Edrychodd yn benodol ar y llinellau canlynol:

codi'i phen, lle cad ffynnon;

³⁰ Charles-Edwards, *Two Mediaeval Welsh Poems*; I. Williams, gol., *Gwyneddon 3* (Caerdydd, 1931), t. 119.

³¹ At ei gilydd, y mae naratifau mewn cerddi i'r seintiau yn oes Tudur Aled yn fyrrach na'r hyn a geir yn yr oes o'i blaen ac o'i hôl: D. Callander, 'Die diachrone Entwicklung der Erzählung in der kymrischen Heiligendichtung', yn E. von Contzen a F. Kragl, goln, *Narratologie und mittelalterliches Erzählen: Autor, Erzähler, Perspektive, Zeit und Raum* (Berlin, 2018), tt. 101–123 (tt. 117–21).

³² Gw. B. F. Roberts, 'Ystoria', *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd* 26 (1974), 13–20; cymh. GPC s.v. 'stori'.

ban y rhoes Beuno ar hon,
clymu o hwn, cleimio'i henaid
wrth y corff, o'r wyrth y caid; (19–22)

Dyma ymateb T. Gwynn Jones:

Dengys y llinellau hyn, fel llawer ereill yn y gerdd, effaith y dull adrodd ystori ar arddull gyffredin beirdd y cywydd. Lle byddant hwy bron bob amser yn clymu'r cwpled â'i gilydd, torrir yma ar ddiwedd ll. 19, a rhed ystyr yr ugeinfed gyda'r rhai a'i canlyn, a chysylltant hwythau, mewn ffordd letach, â'r rhai cynt, yn baragraff. Trwy na fynnent adrodd stori ar fydr, ac oherwydd eu hymlyniad wrth y "Cymeriadau" a rhyw fympwyon tebyg, parhaodd gwaith y cywyddwyr yn llawer mwy bratiog a digyswllt nag y gallasai fod, ac effeithiodd eu dull ar fanyldeb eu meddwl, yn union fel y bu cyn i'r rebeliaid yn Ffrainc barchuso'r *enjambement*.³³

Y mae lle i gwestiynu rhai o'r haeriadau yma. Yn amlwg yr oedd rhai cywyddwyr wedi mynd ati'n fwriadol i adrodd stori ar fydr.³⁴ Ond, a gadael yr ystyriaethau ehangach hyn o'r neilltu, sut mae'r naratif yma yn gweithio fel naratif?

Ceir y dilyniant naratif cyntaf yn llinellau 7–12:³⁵

Caradog, lawog o lid,
hyd ei theml daeth i'w hymlid,
a Charadog ni chredai
min ei gledd drwy ei mwnwgl âi.
Lladdodd Wen; lle 'dd oedd, unawr
llyn tawdd a'i llyncawdd i'r llawr; (7–12)

³³ Jones, *Gwaith Tudur Aled*, II: 649.

³⁴ Callander, 'Diachrone Entwicklung'; cymh. D. Callander, *Dissonant Neighbours: Narrative Progress in Early Welsh & English Poetry* (Cardiff, 2019).

³⁵ Newidiais <ŷ> T. Gwynn Jones i <ei> yn y dyfyniadau i adlewyrchu'r arfer gyfredol.

Y mae tri cham y naratif yma (dyfodiad Caradog, lladd Gwenfrewy, marwolaeth Caradog) yn weddol glir, yn enwedig i gynulleidfa a fyddai'n gyfarwydd â ffurf ar y stori. Y mae'r naratif i gyd yn y gorffennol, sy'n duedd cyffredin yn y cerddi i'r seintiau, a heb ddialog, fel pob un arall o gerddi Beirdd yr Uchelwyr i'r seintiau. Yn hyn o beth y mae eu harddull naratif yn debycach i hynny o naratif sydd i'w gael gan Feirdd y Tywysogion na naratif yr Hengerdd, ac yn wahanol, er enghraifft, i gerddi storiol Dafydd ap Gwilym.³⁶ Ceir defnydd hyblyg o dymp ac amser gyda'r gorffennol (daeth, lladdodd, llyncawdd) a'r amherffaith (âi, oedd) ac y mae hyn yn nodwedd gyffredin o naratif mewn cywydd. Peth arall a welir fan hyn sy'n gyffredin iawn mewn cerddi naratif cynnar Cymraeg yw'r defnydd o grynodedeb yn llinellau 5–6:³⁷

Gwenfrewi, gwn, a friwynt,
achos gŵr oedd ei chas, gynt; (5–6)

Cyfeirir at y digwyddiad, sef briwo Gwenfrewy, cyn adrodd amdano'n llawnach. Yr hyn y mae'r cyffelybiaethau gyda naratif cerddi eraill yn ei amlygu yw'r ffaith nad yw Tudur ar goll wrth fydryddu stori. Y mae'n creu naratif mewn traddodiad barddol lle yr oedd naratifau byr yn bosibilrwydd nid anghyffredin.

Ar ôl y dilyniant naratif cyntaf ceir peth ailadrodd yn llinell 14 ('gwae o'i lladd, a'i golli ei hun'), sy'n ailadrodd dwy elfen olaf y naratif blaenorol. Wedyn symudwn yn ôl i ganolbwyntio ar yr ymosodiad eto (15–16), cyn mynd ymlaen i ddisgrifio pen Gwenfrewy'n disgyn a Beuno'n clymu ei chorff yn ôl at ei gilydd ac atgyfodi Gwenfrewy (17–22). A cheir disgrifiad o'r ffynnon yn tarddu o'r ddaear, yn gyntaf yn 'lle cad ffynnon' yn llinell 19, ac wedyn yn fwy manwl yn llinellau 27–30:

³⁶ Y mae llawer mwy o waith i'w wneud i asesu traddodiad naratif y cerddi hyn a'i berthynas gyda naratif mewn cerddi Cymraeg eraill o'r un cyfnod. Rwyf wedi amlinellu'r amrywiaeth yn hydoedd naratif y cerddi i'r seintiau yn Callander, 'Diachrone Entwicklung'. Bwriadaf gyhoeddi astudiaeth fwy cyffredinol ar agweddau naratif ar y cerddi hyn yn y dyfodol agos.

³⁷ Callander, *Dissonant Neighbours*, tt. 37, 52, 85, 157, 188.

Tra fu'r mab ar ei aberth,
a'i weddi'n Nuw iddi'n nerth,
arwain afon o'r nefoedd,
a chwys gras, a chysegr oedd;

Dywedir bod y ffynnon yn tarddu tra bo Beuno wrth yr offeren, ac wedyn disgrifir y ffynnon am ryw 28 o linellau (31–58). Felly y mae'r elfennau naratif wedi eu cyfyngu i linellau 5 i 32 yn bennaf, er bod rhai o'r gwyrthiau yn llinellau 59–90 yn cynnwys naratifau byr iawn. Yn yr ail ddilyniant naratif sylweddol (15–29) gwelir bod llawer mwy o ddefnydd o ferfenwau yn lle berfau personol ond, fel y disgwyliid gan gywydd i sant, nid oes araith uniongyrchol ac y mae'r naratif i gyd wedi ei osod yn y gorffennol, yn dangos eto gysylltiad y cywydd hwn gyda thraddodiad.

Felly os defnyddiodd Tudur fucheddau Gwenfrewy, newidiodd natur naratif y stori'n unol â normau'r cywyddau i'r seintiau. Ond, a dychwelyd at amcan dechrau'r adran hon, cawn enghraifft o newid y stori (neu newid ei phwyslais) i greu effaith benodol. Dyma eto linellau 7–8:

Caradog lawog o lid
hyd ei theml daeth i'w hymlid,

Dyma ddechrau naratif byr am Garadog. Cyn hyn ni chawsom ond crynodeb yn nodi bod Gwenfrewy wedi ei briwo oherwydd gŵr (5–6). Yn y bucheddau Lladin, y mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth a phroblematig nag y mae llinellau 7–8 yn awgrymu. Yno y mae Caradog yn dod o hyd i Wenfrewy gartref ar y Sul tra bo'i rhieni'n gwrandao ar yr offeren. Dyma ddisgrifiad y fuchedd ddienw (§ 8):

Ea tempestate accidit quadam die dominica Teuyth cum uxore ad missam existere audiendam, Wenefredamque in domo eius genitoris cunctatam fuisse, causa secum ferendi misse necessaria, ignem uidelicet et aquam cum sale.

Yn y cyfnod hwnnw ar ryw Ddydd Sul yr oedd Tyfid a'i wraig yn gwrando ar yr offeren ac yr oedd Gwenfrewy wedi ei hoedi yn nhŷ ei thad oherwydd y pethau angenrheidiol ar gyfer yr offeren yr oedd raid iddi eu cario gyda hi, sef tân a dŵr gyda halen.³⁸

Y mae'r esgus dros gael Gwenfrewy gartref ar y Sul yn hytrach nag yn yr eglwys ym muchedd Robert yn hyd yn oed yn llai argyhoeddiadol (§ 3):

Contigit autem quadam die dominica pergentibus omnibus ad ecclesiam, predictos simul uirginis parentes illuc ire, quatinus predicationi sancti uiri et celebrationi misse interessent. Virgo uero illorum filia aliquod forte perpessa incommodum, necessario domi est sola remanere coacta.

Ond digwyddodd ar ryw Ddydd Sul, ar ôl i bawb fynd i'r eglwys, fod rhieni rhagddywededig y forwyn wedi mynd yno gyda'i gilydd, fel eu bod yn bresennol wrth i'r dyn sanctaidd ddysgu a chynnal yr offeren. Ond bu raid i'w merch wryfol, wedi dioddef rhyw anghyfleustra drwy siawns, aros gartref ar ei phen ei hun.³⁹

Gorfu i'r hagiograffwyr Lladin (fel y rhan fwyaf o'r ysgrifenyddwyr Saesneg ar eu hôl) ryw letchwith esgusodi Gwenfrewy am beidio â bod yn gwrando ar yr offeren gyda'i rhieni. Ond y mae naratif Tudur Aled yn osgoi'r broblem hon. Nid yw'n sôn o gwbl am gartref Gwenfrewy. Nid yw Tudur yn ffurfiol anghytuno gyda naratif y bucheddau. Y mae'r defnydd o'r berfenw *ymlid* o bosibl yn awgrymu bod Gwenfrewy wedi ei hmylid gan Garadog o rywle arall, a gall fod y gynulleidfa yn cymryd bod Caradog wedi ymlidio Gwenfrewy o'i chartref i'r eglwys oherwydd ei hadnabyddiaeth o draddodiadau eraill am y santes, ond nid oes dim yn y gerdd sy'n dweud hyn. Dim ond â'r eglwys a'r ffynnon y cysylltir Gwenfrewy felly. Nid oes ffynhonnell ganoloesol naratif estynedig sy'n adrodd stori merthyru Gwenfrewy gan

³⁸ Ni phortreadir Gwenfrewy fel santes yn *Buchedd Beuno* ac y mae'r esboniad yno yn fwy ymarferol (§ 12): *A dydgweith yd aeth Temic a'e wreic y'r eglwys y warandaw offeren a phregeth y gann Veuno, ac adaw gartref y verch yn gwarchadw.*

³⁹ Darlleniad buchedd Gymraeg Gwenfrewy (§ 9) yw: *Ac yn hynny, duw Sulgwaith, y damchwainawodd y'w rhieni hi fyned y'r eglwys y warando opheren a'r vorwyn y merch, ar ryw achos angen, a gymhellwyd y drigaw gartref.*

adael allan dyfodiad Caradog i'w thŷ ac yn symud yn syth i'r eglwys.⁴⁰ Ond gallai Tudur elwa ar fyrder naratif ei gyfrwng i symleiddio'r stori a'i wneud yn fwy effeithiol.⁴¹ Nid cadwyn ond cyfle yw byrder naratif y cywydd, cyfle i newid straeon mewn ffyrdd na welwyd o'r blaen. Y mae'r gallu i gyflwyno naratifau byr, heb fod yn gaeth i adrodd manylion llawn, yn rhoi cyfle i'r beirdd ddewis a dethol yr hyn yr oeddynt am ei gynnwys yn eu cerddi. Gwelodd rhai gyda Goronwy Owen fod diffyg naratif estynedig yn rhywbeth sy'n rhwystro.⁴² Gellid ystyried diffyg naratifau estynedig mewn barddoniaeth gynnar Gymraeg yn agwedd anffodus ar y corpws a dychymygu y byddai'r llenyddiaeth yn gyfoethocach o'u cael ac yn haws ei chyfieithu. Ac eto, os darllenwn y testunau ar eu telerau eu hunain, heb eu gweld yn amneidiau bach tuag at naratif estynedig yn unig, daw'n eglur nad yw'r ffaith bod y naratifau yn fyr yn meddwl bod y naratifau yn syml nac yn ddifeddwl. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mewn gwirionedd y mae naratifau byr yn galluogi.

Nid yw newidiadau Tudur Aled yn golygu na fyddai'r gynulleidfa wedi gweld naratif y cywydd hwn yn rhan o'r stori neu straeon yr oeddynt yn gyfarwydd â nhw, lle daw Caradog i'r thŷ, ond y mae Tudur wedi newid y pwyslais mewn ffordd sy'n osgoi lletchwithdod absenoldeb Gwenfrewy o'r eglwys. Newid bwriadol gan Tudur Aled oedd yr uchod heb os, ond yr unig ffordd y gallwn weld bod hyn yn newid sylweddol (ac felly gwerthawrogi crefft y cywydd yn iawn yn yr achos hwn) yw cymharu tystiolaeth bucheddau Gwenfrewy a'r traddodiadau eraill amdani. Ac felly y mae cyd-destun esgeulusedig y bucheddau rhyddiaith yn cynnig llawer i'n dealltwriaeth o'r cerddi hyn a'u crefft, er mor anodd yw profi rhyngdestunoldeb pendant. Y mae'r cerddi hwythau yn gallu ychwanegu at ein

⁴⁰ Hepgorir y manylion anghyfleus hyn hefyd yn *Salutatio* a Charol Saesneg Canol John Audelay i Wenfrewy. Y mae'r rhain yn destunau o hanner cyntaf y 15fed ganrif sy'n fyrrach na'r ffynonellau Saesneg Canol eraill. Y mae'r carol yn neidio'n syth i Garadog yn lladd Gwenfrewy heb sôn am dŷ ei rhieni na'r eglwys chwaith: R. L. Greene, *The Early English Carols*, ail arg. (Rhydychen, 1977), tt. 191–3; Gregory, 'Welsh Saint', 261–72. Y mae'r ddadl yma am grefft naratif cerdd Tudur Aled yn berthnasol i waith Audelay hefyd.

⁴¹ Noder hefyd nad oes sôn am Garadog yn dod heibio thŷ ei rhieni yn yr un o'r cerddi Cymraeg eraill i Wenfrewy o'r cyfnod.

⁴² D. Wyn Wiliam, gol., *Llythyrau Goronwy Owen* (Bangor, 2014), t. 60.

darlleniadau o fucheddau ac addasiadau rhyddiaith. Er enghraifft, y maent yn dangos gwahanol ganolbwyntiau yng nghwlt Gwenfrewy yn llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg yr Oesoedd Canol diweddar ar draws y gagendor rhwng rhyddiaith a barddoniaeth Gymraeg. Yng nghyfieithiad Saesneg Canol Caxton o fuchedd Robert, cwtogir y disgrifiad o fywyd Gwenfrewy yng Nghymru yn eithafol ond cedwir stori trosglwyddiad ei chreiriau o Wytherin i Amwythig.⁴³ Yn y cyfieithiad Cymraeg Canol o'r un testun Lladin, trosglwyddiad y creiriau a gwtogir fwyaf a'i adael allan yn ei gyfanrwydd yn y llawysgrif gynharaf, sef LIGC Peniarth 27ii. Argraffodd Caxton ei gyfieithiad yn 1485 ac y mae Peniarth 27ii yn dyddio o tua'r un cyfnod.⁴⁴ Y mae hyn yn gyfoes yn fras â thrwch y farddoniaeth Gymraeg i Wenfrewy a gallwn weld rhai patrymau cyffredin. Fel y nodais uchod, gollyngir trosglwyddiad creiriau Gwenfrewy i Amwythig yn y cerddi Cymraeg, er y byddai'r trosglwyddiad wedi bod yn hysbys i'r beirdd yn ôl pob tebyg. Canolbwynt creiddiol y cerddi yn amlwg yw ffynnon Gwenfrewy, ac mae'n bosibl mai denu rhagor o ymwelwyr i'r ffynnon oedd un o'r rhesymau dros noddi'r cerddi, ond y maent oll hefyd yn cynnwys rhyw ymdriniaeth â Gwenfrewy a'i buchedd, ac ymddengys bod y penderfyniad i osgoi cyfeirio o gwbl at y trosglwyddiad yn un pwrpasol. Y mae hyn yn synhwyrol gan y gallai crybwyll cwlt Gwenfrewy mewn lleoliadau eraill dynnu sylw'r gwrandawyr o'i chwlt yn Nhreffynnon ond y mae'n ddiddorol nodi'r un patrwm i raddau yn y fuchedd ryddiaith Gymraeg lle nad yw lleoliad a noddwyr y cyfieithu yr un mor amlwg.

Felly y mae'r testunau hyn oll yn pwysleisio bod traddodiadau Gwenfrewy yn ddeinamig gyda newidiadau mewn ffocws, pwyslais, a naratif gan wahanol feirdd ac ysgrifenydd. Weithiau y mae'r diffyg ysgolheictod cymharol yn gwneud hyn yn anos ei weld ac yn lled-awgrymu mai traddodiad unffurf digyfnewid oedd

⁴³ *The lyf of the holy and blessyd vyrgyn saynt Wenefryde* (Westminster, 1485). Golygir testun Caxton yn C. Horstmann, 'Prosalegenden', *Anglia*, 3 (1880): 293–360 (tt. 293–313); Cedwir penodau 29–34 a 36–7 buchedd Robert yng nghyfieithiad Caxton, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r deunydd am drosglwyddiad creiriau Gwenfrewy.

⁴⁴ D. Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Aberystwyth, 2000), t. 63.

gan Wenfrewy. Gyda chyhoeddi ffrwyth prosiectau *Cwlt y Seintiau yng Nghymru a Vitae Sanctorum Cambriae*, yn cynnwys barddoniaeth a rhyddiaith, Lladin a Chymraeg, gallwn obeithio y bydd gennym yn y dyfodol agos sail lawer cadarnach ar gyfer gwaith cymharol o'r fath ar draddodiadau Gwenfrewy a'r seintiau eraill. I grynhoi, felly, awgrymaf fod angen cydnabod amrywiaeth hanfodol y traddodiadau hagiograffaidd a ddylanwadodd ar y beirdd. Yn achos Gwenfrewy, er bod golygyddion y cywyddau iddi wedi tueddu i ganolbwyntio ar *Fuchedd Beuno*, y mae dwy fuchedd Ladin Gwenfrewy, y cyfieithwyd un ohonynt i Gymraeg Canol, hyd yn oed yn fwy perthnasol. Un o brif fuddion eu cymharu'n fanwl yw ei fod yn ein galluogi i weld enghreifftiau o feirdd yn ymwneud yn gynhyrchiol â'r traddodiadau oedd ar gael iddynt at ddiben penodol.